# <u>Cyngor Cymuned Llanycil</u>

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mawrth 8fed 2022 yn Neuadd Parc. Yn bresennol oedd Euros Puw (cadeirydd), Huw Charles, Arwel Davies, Geraint Jones a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwynfryn Williams, Jean Roberts, Gwynedd Jones a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Anfonwyd cofion at Gwynfryn Williams a oedd yn absennol oherwydd anhwylder iechyd.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Ionawr a chafwyd yn gywir.**

**<u>ii) Datgan Buddiant.</u>**
Nodwyd y buddiant gyda'r ceisiadau ariannol perthnasol isod.

**<u>iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.</u>**

<u>a) Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - problem cael morgais oherwydd yr amod 106.</u>
Cytunwyd i dderbyn eu cynnig o gyfarfod rhithiol. Gofynnwyd i'r clerc estyn y gwahoddiad i'r cynghorau lleol eraill hefyd.

<u>b) Adroddiad Blynyddol.</u>
Trafodwyd yr eitemau i gynnwys yn yr adroddiad ac amcanion y cyngor ar gyfer 2022/23.

**<u>iv) Gohebiaeth.</u>**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

<u>a) Un Llais Cymru.</u>
<u>a) Amrywiol.</u>
i) Dŵr Cymru – Dogfen cyn-ymgynghori ar gyfer Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr drafft Dŵr Cymru 2024.
ii) Cyfoeth Naturiol Cymru – Cod Cefn Gwlad newydd.
iii) Triathlon Y Bala – diweddariad.
iv) Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - - nodwyd argymhellion a'r oblygiadau i'r Cyngor a'r cynghorwyr. Trafodwyd y cydnabyddiaeth dewisol a cytunwyd nad oedd y cynghorwyr yn dymuno hawlio'r lwfans presenoldeb na unrhyw daliadau ar gyfer cyflawni'r swyddi Cadeirydd, Is-Gadeirydd ac nid oedd unrhyw cyfrifoldebau penodol amlwg iddynt.Nodwyd y cydnabyddiaeth a oedd yn orfodol, y taliad costau ychwanegol a chostau gofal. Atgoffwyd y cynghorwyr fod angen iddynt hysbysu'r Cyngor drwy lythyr os nad oeddynt yn dymuno derbyn y taliadau penodol yma.
v) Corff Llywodraethol Ffederasiwn Cysgod y Foel - dewis cynrychiolydd. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Geraint Davies i weld os fyddai'n fodlon cynrychioli'r Cyngor ar y pwyllgor.
vi) Cymdeithas y Beibl - problem parcio wrth borth yr eglwys yn Llanycil. Roedd y clerc wedi tynnu sylw'r SCCH lleol i'r broblem.

**<u>v) Ceisiadau Cynllunio.</u>**
a) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol:-
NP5/72/25H; Trosi canolfan gweithgareddau awyr agored i dŷ. Gwern-y-Genau, Arenig.
Nid oedd gwrthwynebiad i'r cais cyn belled fod yr Amod 106, Tŷ Fforddiadwy, ynghlwm a'r penderfyniad.

**<u>vi) Materion Ariannol</u>**
<u>a) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau)</u>
Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Chwefror a chafwyd yn gywir.

<u>b) Archwilio Cymru – Cylch Ffioedd 2022-23.</u>
Nodwyd y drefn newydd a'r ffioedd perthnasol.



Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….

c) Taliadau

Cytunwyd i dalu'r canlynol:-
1) Cyflog a chostau'r clerc (Ionawr i Fawrth) - £294.77
2) CTHEM (TWE) - £58.80
3) Un Llais Cymru (tal aelodaeth) – £70
4) Neuadd y Parc (llogi) - £80
5) Tanysgrifiad Zoom (½ y gost gyda Chyngor Llandderfel) - £59.95
6) Cytunwyd i gyfrannu'r £262.96 a glustnodwyd o brosiect diffib Neuadd Parc 2018, tuag at y costau trydanol o'i osod.

ch) Ceisiadau Ariannol.

Cytunwyd i gyfrannu fel y ganlyn:-

| | |
|---|---|
| 1) Cylch Meithrin Maesywaen | £150 |
| 2) Neuadd Y Parc | £150 (Euros Puw yn datgan buddiant ac yn gadael yr ystafell) |
| 3) Ysgol Bro Tryweryn | £150 |
| 4) Cronfa Ysgol Godre'r Berwyn | £75 |
| 5) Sioe Ardal Maesywaen | £50 (Huw Charles yn datgan buddiant ac yn gadael yr ystafell) |
| 6) CFFI Meirionnydd | £100 |
| 7) Hosbis Tŷ'r Eos | £50 |
| 8) Cantref | £25 |
| 9) Hosbis Dewi Sant | £50 |
| 10) Neuadd Maesywaen | £150 |
| 11) Tŷ Gobaith | £25 |
| 12) Ambiwlans Awyr Cymru | £50 |

**vii) Unrhyw Fater Arall.**

a) Gofynnwyd i'r clerc basio'r mater canlynol ymlaen:-
i) Ffos rhy ddwfn a peryg i geir fynd iddo ger Cynythog Bach, Llidiardau.
ii) Angen clirio ochrau'r ffyrdd o Ffridd Isa i Lidiardau a rhwng Beudy Uchaf i Bant Neuadd, Parc.
iii) Coeden angen ei chlirio ger Beudy Uchaf, Parc.
iv) Tyllau yn y ffyrdd o gwmpas pentref Parc.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fercher, Mai 25ain am 8.00 y.h. yn Neuadd Maesywaen.**



Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….